# Gweinidogion Cymru

# Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2025-26
# (Y Setliad Dros Dro - Cynghorau)

ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2025-26
(Y Setliad Dros Dro - Cynghorau)

## CYNNWYS

**ADRAN UN: PWRPAS YR ADRODDIAD A'R PRIF GYNIGION .......... 3**

Pennod 1: Pwrpas yr adroddiad .......... 3

Pennod 2: Y Prif Gynigion .......... 4

**ADRAN DAU: CYNGHORAU .......... 5**

Pennod 3: Cyfrifo swm y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer pob cyngor .......... 5

Pennod 4: Cyfrifo swm yr ardrethi annomestig ar gyfer pob cyngor .......... 8

Pennod 5: Cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer pob cyngor .......... 10

**ADRAN TRI – ATODIADAU'R ADRODDIAD .......... 11**

Atodiad 1: Symiau o Grant Cynnal Refeniw i'w dalu i Gyrff Penodedig .......... 12

Atodiad 2: Symiau o Grant Cynnal Refeniw i'w dalu am ad-daliadau Ardrethi a ddargedwir .......... 13

Atodiad 3: Dangosyddion a Gwerthoedd a ddefnyddiwyd wrth Gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol Cynghorau .......... 134

Atodiad 4: Geirfa a Nodiadau Esboniadol .......... 299

Atodiad 5: Sail Statudol ar gyfer yr Adroddiad .......... 31

# ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2025-26
# (Y Setliad Dros Dro - Cynghorau)

## ADRAN UN: PWRPAS YR ADRODDIAD A'R PRIF GYNIGION

### Pennod 1: Pwrpas yr adroddiad

1.1 Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Mae'n nodi faint o grant cynnal refeniw (RSG) y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylid ei ddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol (Cynghorau) yng Nghymru yn 2025-26. Mae'r adroddiad yn nodi sut y bydd Ardrethi Annomestig (NDR) yn cael eu dosbarthu i Gynghorau yn ogystal â faint o RSG y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei dalu i gyrff penodedig sy'n darparu gwasanaethau i lywodraeth leol. Mae'n nodi hefyd lefel yr ardrethi a gedwir yn ôl a ddidynnwyd cyn pennu'r ffigur Cyllid Allanol Cyfun (AEF). Bydd yr ardrethi a gedwir yn ôl cael eu talu'n uniongyrchol i'r Awdurdodau perthnasol, gyda'r swm sy'n cael ei ddidynnu yn adlewyrchu'r cyfraddau ychwanegol a dalwyd i mewn i'r pwll NDR a'i ddosbarthu drwy'r setliad mewn blynyddoedd blaenorol.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â'r awdurdodau a'r cyrff penodedig sydd yn derbyn y grant (ar wahân i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu). Diwygiwyd Deddf 1988 (Deddf 2003) yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2003 fel bo modd llunio Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol ar wahân ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Mae Deddf 1988 wedi cael ei diwygio fel ei bod yn cyfeirio at Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar ôl cychwyn adran 1 yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

1.3 Cyn gwneud penderfyniadau ynghylch cyfanswm RSG a'r cyfrannau priodol o RSG ac NDR sydd i'w dosbarthu ymhlith awdurdodau derbyn a chyrff penodedig, mae Gweinidogion Cymru yn ymgynghori fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf 1988, â'r cynrychiolwyr hynny o lywodraeth leol y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol o 11 Rhagfyr 2024 i 24 Ionawr 2025 fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf 1988.

## Pennod 2: Y Prif Gynigion

### *Grant Cynnal Refeniw*

2.1 Cyfanswm yr RSG ar gyfer Cynghorau yn 2025-25 yw £4,994,976,273. Yn ogystal, bydd £4,649,356 yn cael ei dalu i gyrff penodedig a £268,371 ar gyfer cadw ardrethi yn ôl yn ymwneud â Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

2.2 O dan y system ddosbarthu a bennir yn yr adroddiad hwn, cyfrifir swm yr RSG i'w dalu i Gyngor unigol ar sail ei Asesiad o Wariant Safonol (SSA) a'i ddyraniad cyllid atodol, gan ystyried swm yr NDR y bydd yn ei dderbyn, a chan dybio swm y dreth gyngor y bydd yn gallu ei chodi. Yn Adran 2, Pennod 3 yr adroddiad hwn, disgrifir y drefn ar gyfer y broses hon.

### *Swm y gellir ei ddosbarthu: Ardrethi annomestig*

2.3 £1,137 miliwn yw swm yr NDR sydd ar gael ac y gellir ei ddosbarthu ar gyfer 2025-26, a ddiffinnir fel F yn Adran 2, Pennod 4. Y ffigur ar gyfer y Cynghorau felly yw £1,135.863 miliwn (sef cyfanswm yr NDR llai'r 0.1 y cant a ddyrannwyd i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu). Disgrifir y sail ar gyfer dosbarthu'r NDR i Gynghorau yn Adran 2, Pennod 4.

# ADRAN DAU: CYNGHORAU

**Pennod 3: Cyfrifo swm y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer pob Cyngor**

3.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r sail a ddefnyddir er mwyn i Weinidogion Cymru ddosbarthu swm yr RSG i'w dalu i'r Cynghorau yn 2025-26.

3.2 Nodir y dull a ddefnyddiwyd er mwyn cyfrifo SSAs ar gyfer Cynghorau ym Mhennod 5. Yn rhan o'r cyfrifiad, defnyddir gwybodaeth sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol pob ardal.

3.3 Er mwyn cyfrifo swm y grant a delir i bob Cyngor, bydd Gweinidogion Cymru'n cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol i ddechrau ar gyfer pob Cyngor. I'r diben hwn, tybir na wneir unrhyw ddefnydd o gronfeydd, nac unrhyw gyfraniad i gronfeydd ychwaith.

Cyfrifir hawliad pob Cyngor am RSG drwy gymhwyso'r fformiwla ganlynol:

(A – B – (C x D)) + E

Dyma arwyddocâd y llythrennau:

A yw SSA y Cyngor, fel y’i cyfrifwyd yn unol â Phennod 5

B yw cyfran y Cyngor o'r swm y gellir ei ddosbarthu o'r cyfrif ardrethi annomestig, fel y’i cyfrifwyd yn unol â Phennod 4

C yw elfen y dreth safonol ar gyfer y Cyngor, fel y nodir ym mharagraff 3.4

D yw sylfaen y dreth gyngor i ddibenion yr RSG ar gyfer ardal y Cyngor, fel y nodir yn Nhabl 3.1

E yw'r RSG ychwanegol a ddyrennir i sicrhau bod pob awdurdod yn derbyn isafswm cynnydd canran, fel y penderfynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

***Elfennau treth safonol ar gyfer cyfrifo hawliadau Grant Cynnal Refeniw***

3.4 Yr "elfen dreth safonol" briodol ar gyfer Cynghorau yw £1,726.03.

***Sylfaen y dreth gyngor ar gyfer dosbarthu Grant Cynnal Refeniw***

3.5 Mae'n ofynnol i bob Cyngor gyfrifo ei sylfaen ar gyfer y dreth gyngor yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 33(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y rhain yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 (fel y'u diwygiwyd)[1]). Rhoddir sylw i ffigurau sylfaen y dreth gyngor a ddarparodd cynghorau i Weinidogion Cymru ar Ffurflen CT1 ar 28 Tachwedd 2024, neu cyn hynny, wrth gyfrifo sylfaen y dreth Gyngor i ddibenion dosbarthu'r RSG.

3.6 Nodir ffigurau sylfaen y dreth Gyngor i ddibenion dosbarthu'r RSG yn Nhabl 3.1. Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Cymru, ni roddir unrhyw ystyriaeth i ragdybiaethau cynghorau ynghylch cyfraddau casglu. I'r diben o ddosbarthu'r RSG, tybir cyfraddau casglu o 100 y cant. Caiff newidiadau i ffigurau sylfaen y dreth o ganlyniad i gyflwyniad premiymau'r dreth gyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor hefyd eu tynnu allan o'r cyfrifiad[2].

[1] O.S. 1995/2561 a gweler hefyd Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/2935) (W.27), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 OS 2004/3094 (W.268), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016 O.S. 2016/969 (W.238) (diwygiadau mewn grym o 28 Hydref 2016).

[2] Gweler Adroddiad yr Is-Grŵp Dosbarthu 2015 – paragraff 27 a Adroddiad yr Is-Grŵp Dosbarthu 2019 – paragraff 21.

**Tabl 3.1: Sylfaen y dreth cyngor: Nifer yr adeiladau sydd yn gyfwerth â Band D ar gyfer 2025-26[1]**

| Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol | Nifer yr adeiladau cyfwerth â Band D |
|---|---|
| **Ynys Môn** | 31,445 |
| **Gwynedd** | 50,993 |
| **Conwy** | 51,691 |
| **Sir Ddinbych** | 41,532 |
| **Sir y Fflint** | 66,473 |
| **Wrecsam** | 55,467 |
| **Powys** | 64,040 |
| **Ceredigion** | 32,663 |
| **Sir Benfro** | 57,504 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 77,126 |
| **Abertawe** | 95,426 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 49,879 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 56,533 |
| **Bro Morgannwg** | 64,973 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 80,940 |
| **Merthyr Tudful** | 19,257 |
| **Caerffili** | 63,166 |
| **Blaenau Gwent** | 21,990 |
| **Torfaen** | 35,285 |
| **Sir Fynwy** | 48,705 |
| **Casnewydd** | 63,323 |
| **Caerdydd** | 153,175 |
| **Cyfanswm Cymru** | **1,281,587** |

*Nodiadau:* *Rhoddir esboniad o eiddo cyfwerth â Band D yn Atodiad 3 - Nodiadau Esboniadol*
*Gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd cyfanswm sylfaen treth gyngor yr holl gynghorau yn creu cyfanswm Cymru gyfan.*

[1] Defnyddir Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2025-26 ar gyfer Setliad dros dro 2025-26

## Pennod 4: Cyfrifo swm yr ardrethi annomestig ar gyfer pob Cyngor

4.1 Yn y bennod hon, manylir ar y sail a ddefnyddir er mwyn i Weinidogion Cymru ddosbarthu'r gyfran briodol o'r swm y gellir ei ddosbarthu ymhlith Cynghorau o'r cyfrif ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26. Fe'i dosberthir ar sail pro rata yn unol â'r boblogaeth o oedolion yn ardal pob Cyngor, drwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol.

$$(F \times 99.9\%) \times \frac{G}{H}$$

Dyma arwyddocâd y llythrennau:

F yw'r swm y gellir ei ddosbarthu, a nodir ym mharagraff 2.3 o Bennod 2 yr Adroddiad hwn

G yw'r boblogaeth breswyl 18 oed a throsodd ym mhob ardal Gyngor, am y cyfnod hyd ddiwedd mis Mehefin 2023, fel yr oeddent yn deillio o amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac fel y nodir yn Nhabl 4.1.

H yw poblogaeth Cymru ar yr un sail a nodir yn G

**Tabl 4.1: Y boblogaeth breswyl 18 oed a throsodd ar 30 Mehefin 2023[1]**

| Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol | Ffigur rhagnodedig (wedi'i dalgrynnu) |
|---|---:|
| **Ynys Môn** | 56,220 |
| **Gwynedd** | 97,490 |
| **Conwy** | 93,937 |
| **Sir Ddinbych** | 77,877 |
| **Sir y Fflint** | 124,995 |
| **Wrecsam** | 108,383 |
| **Powys** | 111,015 |
| **Ceredigion** | 61,618 |
| **Sir Benfro** | 101,521 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 153,399 |
| **Abertawe** | 199,795 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 114,906 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 117,802 |
| **Bro Morgannwg** | 106,750 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 192,277 |
| **Merthyr Tudful** | 46,137 |
| **Caerffili** | 140,377 |
| **Blaenau Gwent** | 54,032 |
| **Torfaen** | 73,991 |
| **Sir Fynwy** | 77,533 |
| **Casnewydd** | 126,592 |
| **Caerdydd** | 307,789 |
| **Cyfanswm Cymru** | **2,544,436** |

*Sylwch: Mae'r ffigurau a ddangosir yn y tabl uchod wedi'u talgrynnu i bedwar ffigur arwyddocaol o'r rhai a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd. Gan hynny, efallai na fydd cyfanswm poblogaeth yr holl gynghorau yn creu cyfanswm Cymru*

[1] Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2023 yng Nghymru..

**Pennod 5: Cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer pob Cyngor**

5.1 Nid oes unrhyw ran o'r RSG ar gyfer Cynghorau wedi'i chlustnodi ar gyfer gwasanaethau neilltuol. Nid yw'r tablau perthnasol y cyfeiriwyd atynt yn yr adran hon yn ffurfio sail ar gyfer cyfrifo dyraniad tybiannol, naill ai o'r SSA nac o'r grant i Gynghorau unigol ar gyfer gwasanaethau neilltuol.

5.2 Pennir SSA pob Cyngor yn dilyn y fethodoleg a argymhellwyd gan yr Is-Grŵp Dosbarthu (DSG), un o is-grwpiau Cyngor Partneriaeth Cymru:

- nodwyd cyfres o ddangosyddion angen drwy fethodoleg y DSG;
- unedau'r SSA yw'r rhai sydd yn briodol i'w cymhwyso i'r dangosyddion a roddir yn y tabl, gan ddilyn methodoleg y DSG; mae maint yr uned yn arwydd o'r lefel briodol o wariant sydd yn gysylltiedig â'r dangosydd hwnnw;
- caiff pob uned SSA a ddangosir ochr yn ochr â dangosydd angen ei lluosi â gwerth y dangosydd angen hwnnw;
- cyfanswm y ffigurau canlyniadol, ynghyd â swm ar gyfer cyllido dyledion a newid ffiniau yw SSA y Cyngor hwnnw.

5.3 Nodir y dangosyddion a ddefnyddir i bennu'r SSA ar gyfer pob Cyngor, a diffiniadau ohonynt, yn Adran 3, Atodiad 3.

5.4 Yn Nhabl 4, Atodiad 3, nodir yr SSA a bennwyd ar gyfer pob Cyngor yng Nghymru. Mae'r unedau SSA yn Nhabl 1, Atodiad 3 wedi cael eu talgrynnu i dri lle degol, fel bo'n briodol (os yw'r pedwerydd lle degol yn gorffen rhwng 1 a 4, caiff y ffigur ei dalgrynnu i lawr, fel arall caiff ei dalgrynnu i fyny). Gan hynny, efallai na fydd cyfanswm y gwerthoedd a gyfrifwyd drwy ddefnyddio Tabl 1, Atodiad 3, o'u hychwanegu at y ffigurau a ddangosir yn Nhabl 2, Atodiad 3, yn cyfateb yn union â'r symiau a bennwyd yn Nhabl 4, Atodiad 3.

## ADRAN TRI – ATODIADAU'R ADRODDIAD

Atodiad 1: Swm y Grant Cynnal Refeniw i'w dalu i Gyrff Penodedig

Atodiad 2: Symiau o Grant Cynnal Refeniw i'w talu fel cadw ardrethi yn ôl

Atodiad 3: Dangosyddion a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol cynghorau

Atodiad 4: Geirfa a Nodiadau Esboniadol

Atodiad 5: Sail Statudol ar gyfer yr Adroddiad

**Atodiad 1: Symiau o Grant Cynnal Refeniw i'w dalu i Gyrff Penodedig**
Swm yr RSG y bydd Gweinidogion Cymru yn talu i bob corff penodedig yw’r swm a ddangosir yn erbyn enw'r corff hwnnw yng ngholofn dde y tabl canlynol:

| Corff Penodedig | Swm mewn £oedd |
|---|---|
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** | 4,649,356 |
| **CYFANSWM** | **4,649,356** |

**Atodiad 2: Symiau o Grant Cynnal Refeniw i'w talu fel cadw ardrethi yn ôl**

Swm y Grant Cynnal Refeniw (RSG) y bydd Gweinidogion Cymru yn ei dalu i bob awdurdod perthnasol ar gyfer cytundebau cadw ardrethi yw'r swm a ddangosir yn erbyn ei enw yng ngholofn dde'r tabl canlynol.

| Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol | Swm mewn £s |
|---|---:|
| **Castell-nedd Port Talbot** | 11,600 |
| **Abertawe** | 58,558 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 198,213 |
| **Sir Benfro** | - |
| **CYFANSWM** | **268,371** |

**Atodiad 3: Dangosyddion a Gwerthoedd a ddefnyddiwyd wrth Gyfrifo SSAs Cynghorau**

*Tabl 1: Dangosyddion a data a ddefnyddiwyd i gyfrifo SSAs ar gyfer Cynghorau*

| Dangosydd angen | Nodyn | Blwyddyn Data | Uned SSA (£) |
|---|---|---|---|
| **Poblogaeth, bob oed** | 1 | 2023 | 273.04 |
| **Poblogaeth 3 i 11 oed** | 1 | 2023 | 107.65 |
| **Poblogaeth 3 i 16 oed** | 1 | 2023 | 649.47 |
| **Poblogaeth 11 i 20 oed** | 1 | 2023 | 53.46 |
| **Poblogaeth 18 i 64 oed** | 1 | 2023 | 280.21 |
| **Poblogaeth 16 oed a throsodd** | 1 | 2023 | 4.71 |
| **Poblogaeth 18 oed a throsodd** | 1 | 2023 | 6.12 |
| **Poblogaeth o dan 60 oed** | 1 | 2023 | 0.32 |
| **Poblogaeth 60 oed a throsodd** | 1 | 2023 | 7.34 |
| **Poblogaeth 85 oed a throsodd** | 1 | 2023 | 2243.64 |
| **Poblogaeth 11 i 15 oed a disgyblion ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 12 i 14** | 2 | 2023 & 2024 | 273.49 |
| **Poblogaeth 16 i 18 oed ar wahân i rai sydd yn yr ysgol** | 3 | 2023 &2024 | 48.34 |
| **Poblogaeth uwch** | 4 | 2023 | 70.04 |
| **Disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi'u modelu** | 5 | 2024 | 4572.15 |
| **Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 7 i 11** | 6 | 2024 | 5321.98 |
| **Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 10 ac 11** | 7 | 2024 | 1309.03 |
| **Disgyblion ysgol gynradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim** | 8 | 2024, 2023, 2022 | 1825.12 |
| **Disgyblion ysgol uwchradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim** | 9 | 2024, 2023, 2022 | 2389.66 |
| **Ardal fesul mynegai ysgolion cynradd wedi'u modelu** | 10 | 2024 | 644.74 |
| **Ardal fesul mynegai ysgolion uwchradd wedi'u modelu** | 11 | 2024 | 151.97 |
| **Plant dibynnol ar aelwydydd lle mae'r penteulu mewn dosbarth galwedigaethol isel** | 12 | 2001 | 65.49 |
| **Plant dibynnol ar aelwydydd oedolion sengl** | 13 | 2001 | 95.42 |
| **Plant dibynnol mewn tai rhent cymdeithasol** | 14 | 2001 | 773.67 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Plant dibynnol mewn tai gorlawn** | 15 | 2001 | 1486.31 |
| **Pensiynwyr yn byw ar eu pen eu hunain ar aelwydydd** | 16 | 2001 | 1692.60 |
| **Pensiynwyr â salwch cyfyngus hirdymor** | 17 | 2001 | 1030.13 |
| **Aelwydydd lle o'r penteulu yn 18 i 64 oed heb ofalwr** | 18 | 2001 | 142.85 |
| **Oedolion 18 i 64 oed mewn grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn** | 19 | 2001 | 310.21 |
| **Y boblogaeth 18 oed mewn wardiau a chanddyn ddwysedd wedi'i bwysoli sydd yn fwy na chyfartaledd Cymru** | 20 | 2001 | 162.19 |
| **Trothwy gwasgariad 2,500 (1991)** | 21 | 1991 | 0.01 |
| **Trothwy gwasgariad 5,000 (1991)** | 21 | 1991 | 0.02 |
| **Trothwy gwasgariad 300 (2001)** | 21 | 2001 | 14.98 |
| **Trothwy gwasgariad 7,500 (2001)** | 21 | 2001 | 1.69 |
| **Trothwy anheddiad 1,000** | 22 | 1991 | 132.36 |
| **Trothwy anheddiad 7,500** | 22 | 1991 | 62.92 |
| **Trothwy anheddiad 12,500** | 22 | 1991 | 5.82 |
| **Trothwy anheddiad 30,000** | 22 | 1991 | 13.65 |
| **Trothwy anheddiad 40,000** | 22 | 1991 | 18.13 |
| **Poblogaeth o fewn trothwy anheddiad o 50,000** | 23 | 1991 | 20.75 |
| **Cyfanswm hawlwyr (ddim mewn cyflogaeth) sy'n hawlio cymhorthdal incwm, lwfans ceisio swydd, credyd pensiwn neu credyd cynhwysol.** | 24 | 2024 | 125.04 |
| **Plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith** | 25 | 2017 | 5382.11 |
| **Hawlwyr (ddim mewn cyflogaeth) cymhorthdal incwm, lwfans ceisio swydd, credyd pensiwn neu credyd cynhwysol 18 i 64 oed** | 26 | 2024 | 184.30 |
| **Hawlwyr cymhorthdal incwm, lwfans ceisio swydd neu credyd pensiwn 65 oed a throsodd** | 27 | 2024 | 1679.28 |
| **Hawlwyr lwfans anabledd difrifol, lwfans byw i'r anabl neu daliad annibyniaeth bersonol, 18 i 64 oed** | 28 | 2024 | 848.30 |
| **Nifer y marwolaethau o bob achos** | 29 | 2023 | 29.02 |
| **Poblogaeth o oedran gwaith wedi'i phwysoli yn erbyn mynegai** | 30 | 2004, 2023 | 19.50 |
| **Cyfanswm y penderfyniadau ynghylch digartrefedd** | 31 | 2021-22 to 2023-24 | 1806.98 |
| **Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Tai** | 32 | 2025-26 | 528.72 |

ADRODDIAD CYLLID LLYWODRAETH LEOL (Rhif 1) 2025-26
(Y Setliad Dros Dro - Cynghorau)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd** | 33 | 2021-22 to 2023-24 | 434.64 |
| **Hyd ffyrdd trefol** | 34 | 2024 | 1957.83 |
| **Hyd ffyrdd wedi'i bwysoli** | 35 | 2024 | 1518.35 |
| **Llif traffig** | 36 | 2023 | 4314015.04 |
| **Unedau goleuadau stryd** | 37 | 2024 | 112.74 |
| **Hyd y forlin a amddiffynnir drwy ddulliau artiffisial** | 38 | 2024 | 25971.40 |
| **Llongau yn cyrraedd porthladdoedd** | 39 | 2024 | 76.12 |
| **Pob annedd** | `40 | 2024 | 56.33 |
| **Safleoedd bwyd** | 41 | 2024 | 184.78 |
| **Safleoedd masnachu** | 42 | 2024 | 25.15 |
| **Ardollau draenio tir** | 43 | 2024-25 | 1.00 |
| **Ardollau parc cenedlaethol** | 44 | 2024-25 | 1.00 |
| **Grant Amddifadedd** | 45 | 2000 | 1000.00 |
| **Derbynwyr Budd-daliadau Tai** | 46 | 2021-2023 | 76.13 |
| **Gwariant Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** | 47 | 2023-24 | 0.81 |
| **Llwyth Achosion Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** | 48 | 2023-24 | 18.67 |
| **Menter Benthyca Llywodraeth Leol - Gwella Priffyrdd** | | 2016-17 | 0.08 |
| **Ffi glwyd** | 49 | 2025-26 | 1.00 |
| **Ariannu Asedau** | | 2025-26 | 1.00 |
| **Menter Benthyca Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif** | | 2018-19 | 1.00 |
| **Cyllid Dyled** | | 2025-26 | 1.00 |
| **Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol** | | 2025-26 | 1.00 |
| **Pensiynau Tân** | 50 | 2024 | 1.02 |
| **Cyflawni gwaith atal llifogydd** | | 2024 | 1.00 |
| **Claddedigaethau Plant** | | 2024 | 1.00 |
| **Neb Heb Help** | | 2024 | 1.00 |
| **Atal Digartrefedd yn Disgresiynol** | | 2024 | 1.00 |
| **Cydlynwyr Strategol** | | 2024 | 1.00 |
| **Cyflog Athrawon** | | 2024 | 1.00 |
| **Pensiynau Athrawon** | | 2024 | 1.00 |
| **Cyflog Tân** | | 2024 | 1.00 |

***Nodiadau ar gyfer Tabl 1***

**Diffiniadau o ddangosyddion a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo Asesiadau o Wariant Safonol cynghorau**
*[Sylwch: ffurflenni Llywodraeth Cymru yw'r ffurflenni y cyfeirir atynt ac a ddefnyddiwyd i gasglu data ystadegol]*

*1. Poblogaeth*

I ddiben yr Adroddiad hwn, bydd poblogaeth ardal a nifer y personau o unrhyw ddisgrifiad mewn ardal (ac eithrio lle nodir yn wahanol) y cyfartaledd amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2023 yng Nghymru.

*2. Y boblogaeth 11 i 15 oed a disgyblion ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 12 i 14*

Poblogaeth yr ardal Gyngor (gweler nodyn 1) ynghyd â nifer y disgyblion ym mis Ionawr ym mlwyddyn data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mlynyddoedd 12 i 14 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn yr ardal Gyngor (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan Gynghorau) yn ogystal ag Addysg Heblaw yn yr Ysgol fel ym mis Ionawr 2024.

*3. Poblogaeth 16 i 18 oed heblaw yn yr ysgol*

Rhagamcan o boblogaeth yr ardal Gyngor (gweler nodyn 1) llai nifer y disgyblion ym mis Ionawr ym mlwyddyn data’r CYBLD ym mlynyddoedd 12 i 14 mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn ardal y Cyngor (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan Gynghorau) yn ogystal â'r rhai hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol fel ym mis Ionawr 2024.

*4. Poblogaeth uwch*

Cyfanswm poblogaeth ardal y Cyngor (gweler nodyn 1) plws cyfartaledd nifer nosweithiol yr ymwelwyr dros nos o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt, a cyfartaledd nifer dyddiol yr ymwelwyr dydd, ar sail amcangyfrifon a ddarparwyd drwy Fodel Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (a dynnwyd o wybodaeth a gasglwyd gan Global Tourism Solutions (UK) Ltd wrth gyhoeddi 'STEAM in Wales').

*5. Disgyblion ysgol gynradd a disgyblion ysgol feithrin wedi’u modelu*

Nifer y disgyblion 4 oed a throsodd ym mis Ionawr ym mlwyddyn y data mewn ysgolion cynradd a meithrin a gynhelir, ac eithrio ysgolion arbennig yn ardal y Cyngor, plws disgyblion 5 i 10 oed, gan gynnwys yr oedrannau hynny, mewn ysgolion annibynnol, ac eithrio ysgolion arbennig ac addysg arbennig y mae'r Cyngor yn talu ffioedd addysgu llawn ar eu cyfer, plws y rhai hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol fel ym mis Ionawr 2024. Mae amcangyfrif ar gyfer disgyblion meithrin 3 oed hefyd wedi'i gynnwys drwy gymryd poblogaeth y grŵp oedran o fewn y Cyngor a gostwng y swm hwnnw yn gymesur â chyfran y disgyblion 3 oed mewn ysgolion meithrin yng Nghymru gyfan. Rhoddwyd pwysoliad o hanner i ddisgyblion rhan-amser (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan gynghorau).

*6. Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 7 i 11*

Nifer y disgyblion ym mlynyddoedd 7 i 11 ym mlwyddyn y data mewn ysgolion uwchradd a

gynhelir yn ardal y Cyngor, ac eithrio ysgolion arbennig; plws disgyblion 11 i 15 oed mewn ysgolion annibynnol y mae'r Cyngor yn talu ffioedd addysgu llawn ar eu cyfer, ac eithrio ysgolion arbennig ac addysg arbennig (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan gynghorau) yn ogystal â'r rhai hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol fel ym mis Ionawr 2024.

*7. Disgyblion ysgol uwchradd ym mlynyddoedd 10 ac 11*

Nifer y disgyblion ym mlynyddoedd 10 ac 11 ym mlwyddyn y data mewn ysgolion uwchradd a gynhelir yn ardal y Cyngor, ac eithrio ysgolion arbennig; plws disgyblion mewn ysgolion annibynnol y mae'r Cyngor yn talu ffioedd addysgu llawn ar eu cyfer, ac eithrio ysgolion arbennig ac addysg arbennig (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD, a gwybodaeth gan Gynghorau) yn ogystal â'r rhai hynny sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol fel ym mis Ionawr 2024.

*8. Disgyblion ysgol gynradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim*

Cyfartaledd o dair blynedd o nifer y disgyblion a gofrestrwyd ar y gofrestr a oedd yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim a'r disgyblion hynny a ddiogelir dros dro mewn ysgolion meithrin a chynradd a gynhelir, a oedd yn mynychu'r ysgol o'r flwyddyn dderbyn ymlaen, yn ardal y Cyngor (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD) yn ogystal â chyfartaledd pedair blynedd â'r rhai hynny sy'n derbyn addysg y tu allan i'r ysgol o dan 11 mlwydd oed ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o’r blynyddoedd data.

*9. Disgyblion ysgol uwchradd sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim*

Cyfartaledd o dair blynedd o nifer y disgyblion a gofrestrwyd ar y gofrestr a oedd yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim a'r disgyblion a ddiogelir dros dro mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, gan fynychu blynyddoedd 7 i 11, a oedd yn mynychu'r ysgol o flwyddyn 7 i 11, yn ardal y Cyngor (wedi'i gydgasglu o wybodaeth a adroddwyd gan ysgolion a gynhelir ar ffurflen CYBLD), yn ogystal â chyfartaledd pedair blynedd â'r rhai hynny sy'n derbyn addysg y tu allan i'r ysgol rhwng 11-15 oed ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

*10. Ardal fesul mynegrif ysgolion cynradd wedi’u modelu*

Arwynebedd y tir wedi'i rannu â nifer wedi'i fodelu o ysgolion cynradd o fewn ardal y Cyngor. Diffinnir arwynebedd y tir fel arwynebedd tir y marc penllanw mewn hectarau, fel yr oedd ar ddiwedd mis Ebrill y flwyddyn honno. Cyfrifir y data gan yr Uned Gartograffeg, Llywodraeth Cymru, drwy ddefnyddio data Llinell Derfyn yr Arolwg Ordnans. Cyfrifir y nifer wedi'i fodelu o ysgolion drwy ddefnyddio dulliau atchwel, gan ystyried nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir (gweler nodyn 5) a'r dangosydd poblogaeth aneddiadau â throthwy o 1,000 (gweler nodyn 22). Defnyddir niferoedd wedi'u modelu o ysgolion yn hytrach na niferoedd gwirioneddol, er mwyn osgoi cymhellion gwrthnysig. Mae papur 41 (2000) yr Is-Grŵp Dosbarthu yn disgrifio sut i gyfrifo'r nifer wedi'i fodelu o ysgolion.

*11. Arwynebedd fesul mynegrif ysgolion uwchradd wedi’u modelu*

Arwynebedd y tir wedi'i rannu â nifer wedi'i fodelu o ysgolion uwchradd o fewn ardal y Cyngor. Diffinnir arwynebedd y tir fel arwynebedd tir y marc penllanw mewn hectarau, fel y nodwyd uchod. Cyfrifir y data gan yr Uned Gartograffeg, Llywodraeth Cymru, drwy

ddefnyddio data Llinell Derfyn yr Arolwg Ordnans. Cyfrifir y nifer wedi'i fodelu o ysgolion drwy ddefnyddio dulliau atchwel, gan ystyried nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd a gynhelir (gweler nodiadau 6 a 7) a'r dangosydd poblogaeth aneddiadau â throthwy o 7,500 (gweler nodyn 22). Defnyddir niferoedd ysgolion wedi'u modelu, yn hytrach na'r niferoedd gwirioneddol er mwyn osgoi cymhellion gwrthnysig. Mae papur 50 (2000) yr Is-Grŵp Dosbarthu yn disgrifio'r dull o gyfrifo'r nifer wedi'ii fodelu o ysgolion.

12. *Plant dibynnol ar aelwydydd lle bo'r penteulu yn Nosbarthiad Economaidd-gymdeithasol 6, 7 neu 8 yr Ystadegau Gwladol.*

Nifer y plant dibynnol sydd yn byw ar aelwydydd lle bo'r penteulu wedi'i ddosbarthu'n unigolyn sydd mewn galwedigaeth lled-arferol, galwedigaeth arferol, sydd heb weithio erioed, neu sydd wedi bod yn ddi-waith ers cyfnod hir (NS-SEC 6, 7 neu 8) (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

*13. Plant dibynnol ar aelwydydd oedolion sengl*

Nifer y plant dibynnol sy'n byw ar aelwydydd lle nad oes ond un oedolyn yn preswylio yno (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

*14. Plant dibynnol mewn tai rhent cymdeithasol*

Nifer y plant dibynnol sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

*15. Plant dibynnol mewn tai gorlawn*

Nifer y plant dibynnol sy'n byw mewn tai gorlawn (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

*16. Pensiynwyr yn byw ar eu pen eu hunain ar aelwydydd*

Nifer yr unigolion oed pensiwn (dynion a menywod 65 oed a throsodd) sydd yn byw ar eu pen eu hunain ar aelwydydd (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

*17. Pensiynwyr â salwch cyfyngus hirdymor*

Nifer y bobl oed pensiwn (dynion a menywod 65 oed a throsodd) sydd fel arfer yn preswylio yn ardal y cyngor, a chanddynt salwch cyfyngus hirdymor (Cyfrifiad Poblogaeth 2001)

*18. Aelwydydd (lle bo'r penteulu yn 18 i 64 oed) heb ofalwr*

Nifer yr aelwydydd sydd yn cynnwys unigolyn â salwch cyfyngus hirdymor (lle bo'r penteulu rhwng 18 a 64 oed) ac sydd heb ofalwr (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

*19. Oedolion o grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn*

Nifer y bobl 18 i 64 oed mewn grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn, fesul pen o'r boblogaeth 18 i 64 oed (Cyfrifiad Poblogaeth 2001).

*20. Y boblogaeth dan 18 oed mewn wardiau lle ceir dwysedd poblogaeth wedi'i bwysoli sydd yn fwy na chyfartaledd Cymru*

Cyfanswm yr unigolion dan 18 sydd fel arfer yn byw yn ardal y Cyngor, sydd yn byw mewn wardiau lle byddai lluosi'r boblogaeth dan 18 oed sydd fel arfer yn byw yno â'r holl boblogaeth sydd fel arfer yn byw yno a rhannu hynny â maint yr ardal mewn hectarau, yn creu cyfanswm sydd yn uwch na chyfartaledd holl wardiau Cymru (Cyfrifiad Poblogaeth

2001)

*21. Gwasgariad, gyda throthwyon amrywiol*

Dyma fesur wedi'i ddylunio i gipio gwybodaeth am y costau amser a phellter ychwanegol sydd yn gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau i gymunedau sydd ar wasgar. Cyfrifir paramedr aneddiadau creiddiol ym mhob Cyngor, gan ddiffinio "prif" aneddiadau ar sail meini prawf yn gysylltiedig â throthwy amrywiaeth poblogaeth (adroddiad a gomisiynwyd gan Pion Economics ac NWRRL ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru "The Derivation of Population Distribution Measures for Use in the Calculations of SSAs in Wales").

*22. Anheddiad, gyda throthwyon amrywiol*

Y boblogaeth ym mhob ardal y Cyngor y tu allan i aneddiadau uwch na'r trothwy penodedig ar gyfer maint poblogaeth, drwy ddefnyddio'r ffigurau poblogaeth o Gyfrifiad Poblogaeth 1991 (adroddiad a gomisiynwyd gan Pion Economics ac NWRRL ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru "The Derivation of Population Distribution Measures for Use in the Calculations of SSAs in Wales").

*23. Poblogaeth o fewn trothwy anheddiad*

Y boblogaeth ym mhob ardal y Cyngor o fewn aneddiadau uwch na'r trothwy penodedig ar gyfer maint poblogaeth, drwy ddefnyddio'r ffigurau poblogaeth o Gyfrifiad Poblogaeth 1991 (adroddiad a gomisiynwyd gan Pion Economics ac NWRRL ar gais Cynulliad Cenedlaethol Cymru "The Derivation of Population Distribution Measures for Use in the Calculations of SSAs in Wales").

*24. Cyfanswm yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm), Derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm, Hawlwyr Credyd Pensiwn neu rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth)*

Amcangyfrif o nifer yr hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm), derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm (seiliedig ar incwm a heb incwm, am y pedwar chwarter diweddaraf), hawlwyr Credyd Pensiwn, neu rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth), gan ddefnyddio ffigurau chwarterol a'u rhannu i greu cyfartaledd dros 12 chwarter hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror ym mlwyddyn y data (NOMIS ac Stat-Xplore)

*25. Plant dibynnol mewn teuluoedd heb waith*

Amcangyfrif o nifer y plant mewn teuluoedd heb waith, yn ystod blwyddyn y data (Cyllid a Thollau ei Mawrhydi).

*26. Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm), Derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm, Hawlwyr Credyd Pensiwn, neu rhai sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth) 18-64 oed*

Amcangyfrif o nifer yr hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm) derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm (seiliedig ar incwm a heb incwm, am y pedwar chwarter diweddaraf), hawlwyr Credyd Pensiwn neu rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (ddim mewn cyflogaeth) sydd yn 18-64 oed, gan ddefnyddio ffigurau chwarterol a'u rhannu i greu cyfartaledd dros 12 chwarter hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror ym

mlwyddyn y data (NOMIS a Stat-Xplore).

*27. Nifer yr Hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm incwm), Derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm neu Hawlwyr Credyd Pensiwn 65 oed a throsodd*

Amcangyfrif o nifer yr hawlwyr Cymhorthdal Incwm (gyda/heb warant isafswm) neu derbynwyr Lwfans Ceisio Swydd ar Sail Incwm neu Gredyd Pensiwn, sydd yn 65 oed a throsodd, gan ddefnyddio ffigurau chwarterol a'u rhannu i greu cyfartaledd dros 12 chwarter hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror ym mlwyddyn y data (NOMIS).

*28. Nifer yr Hawlwyr Lwfans Anabledd Difrifol, Lwfans Byw i'r Anabl, neu Hawlwyr Taliad Annibyniaeth Bersonol sydd yn 18-64 oed*

Amcangyfrif o nifer yr hawlwyr Lwfans Anabledd Difrifol, Lwfans Byw i'r Anabl neu hawlwyr Taliad Annibyniaeth Bersonol sydd yn 18-64 oed, gan ddefnyddio ffigurau chwarterol a'u rhannu i greu cyfartaledd dros 12 chwarter hyd at ac yn cynnwys mis Chwefror ym mlwyddyn y data (NOMIS ac Stat-Xplore).

*29. Nifer y marwolaethau o bob achos*

Marwolaethau wedi'u cofrestru  fesul 'awdurdod lleol preswyl arferol', gan gynnwys niferoedd, a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

*30. Poblogaeth Oedran Gwaith wedi'i Phwysoli ar sail Mynegrif*

Mynegrif sydd yn deillio o ddadansoddiad ystadegol o Werth Ychwanegol Gros wedi'i luosogi â'r boblogaeth oed gwaith (gweler nodyn 1), a nodir ym mhapur 35 yr Is-Grŵp Dosbarthu (2007).

*31. Cyfanswm y penderfyniadau ynghylch digartrefedd*

Yn defnyddio cyfanswm nifer yr aelwydydd sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod (adran 66) a nifer yr aelwydydd sy'n cael eu hasesu fel rhai digartref ac y mae dyletswydd i sicrhau llety diogel ar eu cyfer (adran 73), wedi'u cyfartaleddu dros y 3 blynedd diwethaf.

*32. Cyllid Cyfalaf Cyffredinol (GCF) Tai*

Darperir GCF i Cynghorau ar sail cyllid heb ei neilltuo.  Caiff cyfrifiad y cyllid Tai ei ddosbarthu ar sail fformiwla drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion fel cyfanswm y costau atgyweirio (Arolwg Byw yng Nghymru 2008), amcangyfrifon o'r stoc o anheddau preifat, symiau grant ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) a data Cyfrifiad 2001.

*33. Ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd*

Nifer y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn ystod pob blwyddyn ariannol, ar ffurf cyfartaledd dros dair blynedd ariannol hyd at ac yn cynnwys y flwyddyn a ddaeth i ben ym mlwyddyn y data (fel yr adroddodd Cynghorau yn rhan o Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru).

*34. Hyd ffyrdd trefol*

Cyfanswm yr hyd mewn cilometrau ar 31 Mawrth o flwyddyn y data ar y ffyrdd hynny o fewn

ardal y Cyngor, ac eithrio cefnffyrdd, yn amodol ar derfyn cyflymder heb fod yn fwy na 40 milltir yr awr (fel y cyfrifwyd o'r amcangyfrifon a adroddwyd gan Gynghorau ar ffurflen TP1).

*35. Hyd ffyrdd wedi'i bwysoli*

Cyfanswm hyd y ffyrdd hynny o fewn ardal y Cyngor, ac eithrio cefnffyrdd, mewn cilometrau ar 31 Mawrth o flwyddyn y data, gyda phwysoliad o 3.2 ar gyfer priffyrdd ac 1.0 ar gyfer yr holl ffyrdd eraill lleol (fel y cyfrifwyd o'r amcangyfrifon a adroddwyd gan Gynghorau ar ffurflen TP1).

*36. Llif traffig*

Y 'llif traffig blynyddol' mewn cilometrau cerbyd ar gyfer blwyddyn y data ar brif ffyrdd o fewn ardal y Cyngor (fel y cyfrifwyd o amcangyfrifon yr Arolwg Traffig Ffyrdd Cenedlaethol, yr Adran Drafnidiaeth).

*37. Unedau golau stryd*

Nifer yr unedau golau stryd a adroddwyd yn ardal y Cyngor ar 1 Ebrill ym mlwyddyn y data (fel yr adroddodd Cynghorau wrth Lywodraeth Cymru).

*38. Hyd y forlin a amddiffynnir drwy ddulliau artiffisial*

Diffinnir hyn fel cyfanswm hyd y forlin mewn cilometrau, ar 1 Ebrill ym mlwyddyn y data, lle mae gwaith cyfalaf wedi cael ei gyflawni o dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall gynharach debyg, ac eithrio'r hydoedd hynny y mae sefydliadau preifat neu gyrff cyhoeddus ar wahân i Gynghorau yn berchen arnynt ac yn eu cynnal.

*39. Llongau yn cyrraedd porthladdoedd*

Amcangyfrif o nifer y llongau sydd yn cyrraedd porthladdoedd yn ardal y Cyngor ym mlwyddyn y data, ac eithrio llongau a ddefnyddir i gyflenwi, carthu neu ollwng yn y môr (Yr Adran Drafnidiaeth).

*40. Anheddau*

Nifer yr hereditamentau domestig ar 31 Mawrth ym mlwyddyn y data (Asiantaeth y Swyddfa Brisio).

*41. Safleoedd bwyd*

Nifer yr hereditamentau busnes sydd yn perthyn i'r dosbarthiad Bwyd (fel y'i diffiniwyd gan Lywodraeth Cymru, ac y cytunwyd gan Is-Grŵp Dosbarthu (2000) (Papur 55) ar 31 Mawrth ym mlwyddyn y data (Asiantaeth y Swyddfa Brisio).

*42. Safleoedd masnachu*

Nifer yr hereditamentau busnes a ddosbarthwyd yn safleoedd masnachol, diwydiannol a hamdden ar 31 Mawrth ym mlwyddyn y data (Asiantaeth y Swyddfa Brisio), ac nifer y daliadau fferm economaidd actif yn ystod y mis Mehefin cyn y flwyddyn data.

*43. Ardollau draenio tir*

Y symiau a godir ar y Cyngor gan y Byrddau Draenio Mewnol (IDBs) ar gyfer y flwyddyn

ariannol, ac a geir yn yr Adroddiadau Blynyddol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer yr IDBs.

*44. Ardollau parc cenedlaethol*

Y symiau i'w codi ar Gynghorau gan yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol a nodwyd.  Os bydd mwy nag un Cyngor yn ysgwyddo'r ardoll, fe'i dosrennir yn unol â'r canrannau a nodir yn Rheoliadau Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) 1995 (OS 1995/3019 fel y'i diwygiwyd)[1].

*45. Grant Amddifadedd*

Mae'r grant amddifadedd blaenorol yn cynnal dyraniad hanesyddol ar sail MALIC 2000.

*46. Derbynwyr Budd-daliadau Tai*

Mae'r ffynhonnell ddata yn cymryd swm o gyfanswm nifer yr aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol (sydd â hawlogaeth i gael budd-dal tai ac sy'n cael taliad) a chyfanswm nifer yr aelwydydd sy'n derbyn budd-dal tai, wedi'u cyfartaleddau dros 24 mis, rhwng Mehefin 2021 a Mai 2023.

*47. Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor - Gwariant*

Mae'r dangosydd yn seiliedig ar Wariant Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn data a gasglwyd gan Gangen y Polisi Trethu Lleol a Chymorth y Dreth Gyngor o fewn Llywodraeth Cymru.  Nid yw hyn yn cynnwys y cymorth ychwanegol Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor ar gyfer Covid-19 a ddarperir i gynghorau.

*48. Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor - Llwyth Achosion*

Mae'r dangosydd yn seiliedig ar Lwyth Achosion Cynlluniau Gostwng y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn data a gasglwyd gan Gangen y Polisi Trethu Lleol a Chymorth y Dreth Gyngor o fewn Llywodraeth Cymru.

*49. Ffi glwyd*

Mae'r dangosydd yn seiliedig ar broffil penodol o wariant ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli gwastraff a gynhelir.

[1]Gweler (i) Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 1996 (O.S. 1996/2913); (ii) Rheoliadau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 2000 (O.S.2000/244) (W.2); (iii) y Gorchymyn Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Diwygiadau a Diddymiadau) 2001 (O.S. 2001/3649); ac (iv) Deddf Gwasanaethau Ariannol 2012 (Diwygiadau symiau canlyniadol a darpariaeth drosiannol) gorchymyn 2013 (O.S. 2013/472).

**Tabl 2: Swm i'w ychwanegu at y gwerth a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r fformiwla a nodwyd yn Nhabl 1 ar gyfer cyllido dyledion ac eitemau eraill**

| Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol | £ |
|---|---|
| **Ynys Môn** | £6,104,355 |
| **Gwynedd** | £11,943,656 |
| **Conwy** | £14,712,063 |
| **Sir Ddinbych** | £15,684,765 |
| **Sir y Fflint** | £11,265,352 |
| **Wrecsam** | £10,485,084 |
| **Powys** | £13,238,827 |
| **Ceredigion** | £10,134,247 |
| **Sir Benfro** | £11,566,558 |
| **Sir Gaerfyrddin** | £15,455,480 |
| **Abertawe** | £19,320,860 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | £11,638,018 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | £11,947,183 |
| **Bro Morgannwg** | £8,548,217 |
| **Rhondda Cynon Taf** | £21,633,122 |
| **Merthyr Tudful** | £4,667,523 |
| **Caerffili** | £17,852,112 |
| **Blaenau Gwent** | £6,417,194 |
| **Torfaen** | £7,769,796 |
| **Sir Fynwy** | £6,802,478 |
| **Casnewydd** | £16,908,917 |
| **Caerdydd** | £25,703,128 |
| **Cymru[1]** | **£279,798,935** |

[1] Gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd swm y cyllid ar gyfer dyledion na'r eitemau eraill ar gyfer yr holl gynghorau yn creu'r cyfanswm ar gyfer Cymru.

### *Nodiadau ar gyfer Tabl 2*

Mae'r swm a ddangoswyd ar gyfer pob cyngor yn cynnwys yr eitemau canlynol:

1. Addasiad ar gyfer y newidiadau a gyflwynwyd o ran ffiniau ar 1 Ebrill 2005.[1]yn seiliedig ar gyfanswm y boblogaeth breswyl a drosglwyddwyd rhwng yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, fel yr amcangyfrifwyd drwy ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad Poblogaeth 2001.

2. Elfen cyllido dyledion SSAs ar gyfer Cynghorau. Elfennau cyllido cyfalaf yw ad-daliadau a llog ar gyfer dyledion cyn ac ar ôl 31/03/04 a gostyngiad mewn grantiau cyllido cyfalaf. Tybir mai 4 y cant yw'r gyfradd ad-dalu a’r gyfradd llog a ddefnyddir yw'r gyfradd llog gyfun ar gyfer 2025-26, a gyfrifir fel 3.8 y cant. Ceir disgrifiad manwl o'r dull cyfrifo ym mharagraffau (a) i (f) isod.

   Sylwch: Ym mharagraffau (a) i (f), os nad oes gwybodaeth ond ar gael ar gyfer ardaloedd gwahanol i ardaloedd y Cynghorau, dosrennir y symiau i'r Cynghorau ar sail nifer y bobl ar 30 Mehefin yn y flwyddyn dan sylw sydd fel arfer yn preswylio yn yr ardaloedd dan sylw, yn ôl amcangyfrif y Cofrestrydd Cyffredinol, oni chytunwyd ar ddosraniadau gwahanol rhwng Cynghorau penodol (fel yr hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru)

   (a) Mae terfyn uchaf y credyd tybiannol yn unrhyw flwyddyn yn seiliedig ar yr hyn a nodwyd ar y Ffurflenni Alldro Cyfalaf (5) ar gyfer 31 Mawrth 2004, ac a adroddwyd yn ystod 2005 ar gyfer y Cynghorau a'r awdurdodau tân. Nodir y terfynau uchaf tybiedig ar gyfer credyd yn Nhabl 3 yr Atodiad hwn. Gwneir addasiad ar gyfer cymeradwyaethau credyd atodol dwy flynedd, na fanteisiwyd arnynt yn llawn yn ystod y flwyddyn gyntaf o'u cyflwyno, ac yr hysbyswyd y Cynulliad Cenedlaethol amdanynt.

   (b) Tybir bod Cynghorau'n ad-dalu 4 y cant o unrhyw derfyn uchaf credyd tybiannol ar ddechrau blwyddyn y setliad, ar drefniant i leihau'r balans. Ychwanegir dyled newydd at derfyn uchaf y credyd tybiannol bob blwyddyn sydd yn gyfwerth â dyraniad yr Cyngor ar gyfer benthyca â chymorth ar gyfer y flwyddyn berthnasol ac a oedd ar gael i Weinidogion Cymru wrth iddynt gyfrifo. Disgrifir y dull hwn o drosglwyddo'r terfyn uchaf tybiannol ymlaen ym mhapur 26 yr Is-Grŵp Dosbarthu (2009).

   (c) Pennir taliadau llog ar derfyn uchaf unrhyw gredyd tybiannol mewn perthynas ag (a), fel y cânt eu gostwng drwy'r ad-daliad blynyddol a ddisgrifir yn (b), o ganlyniad i gymhwyso'r gyfradd llog gyfun i derfyn uchaf cyfartaledd cyfanswm y credyd tybiannol yn ystod 2025-26.

   (d) Pennir y gydran cyllido cyfalaf ym mhob Cyngor mewn perthynas â dyledion a achosir, sef swm:

   yr ad-daliadau ar gyfer 2025-26 a ddisgrifir yn (b) a'r taliadau llog a ddisgrifir yn (c),

[1] Y newidiadau a gyflwynwyd i ffiniau yn sgil Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot a Phowys (Cwm-twrch) 2004 (O.S. 2004/2746) (W.244).

(e) Mae'r gydran ar gyfer taliadau prydlesu cyn 1990 ac a briodolir i Gynghorau yn deillio o wybodaeth a gasglwyd gan Cynghorau i ddilysu'r data a ddarparwyd ar brydlesu ar ffurflenni Alldro Refeniw (AR).

(f) Mae'r gydran ar gyfer grantiau cyllido cyfalaf o ddyledion a ysgwyddwyd ar 31 Mawrth 1990 neu cyn hynny gan ardaloedd pwyllgor prawf ac ardaloedd pwyllgor llys ynadon, ac a briodolwyd i Gynghorau, yn deillio o wybodaeth am y swm sydd yn daladwy i bob ardal pwyllgor prawf ac ardal pwyllgor llys ynadon yn y flwyddyn 2025-6, a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a Gwasanaeth Llysoedd EM.

Y gydran cyllido dyledion yn SSA pob Cyngor yw cyfanswm y symiau a ddisgrifir yn (d) ac (e), llai'r swm a ddisgrifir yn (f).

3. Cyllid ar gyfer ymrwymiadau a bennwyd ymlaen llaw: Menter Benthyca Llywodraeth Leol - Gwella Priffyrdd; Menter Benthyca Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif; Cyllido Asedau; Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.

**Tabl 3: Terfyn uchaf credyd tybiannol ar 31 Mawrth 2004**

| Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol | £000 | £ y pen o'r boblogaeth [1] |
|---|---:|---:|
| **Ynys Môn** | 74,510 | 1075 |
| **Gwynedd** | 126,848 | 1064 |
| **Conwy** | 103,051 | 901 |
| **Sir Ddinbych** | 98,909 | 1018 |
| **Sir y Fflint** | 129,337 | 830 |
| **Wrecsam** | 107,787 | 792 |
| **Powys** | 142,229 | 1058 |
| **Ceredigion** | 78,589 | 1076 |
| **Sir Benfro** | 118,705 | 950 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 171,392 | 902 |
| **Abertawe** | 235,308 | 954 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 137,589 | 963 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 117,392 | 800 |
| **Bro Morgannwg** | 98,198 | 729 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 239,134 | 992 |
| **Merthyr Tudful** | 60,243 | 1028 |
| **Caerffili** | 152,277 | 863 |
| **Blaenau Gwent** | 91,140 | 1353 |
| **Torfaen** | 96,562 | 1034 |
| **Sir Fynwy** | 70,115 | 741 |
| **Casnewydd** | 138,990 | 849 |
| **Caerdydd** | 283,897 | 740 |
| **Cymru** | **2,872,201** | **908** |

*Nodiadau: Mae'r ffigurau'n cynnwys dosraniad perthnasol ar gyfer terfyn uchaf credyd yr awdurdod tân ac achub. Gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd y terfyn credyd ar gyfer yr holl gynghorau yn creu'r cyfanswm ar gyfer Cymru.*

[1] Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2023 yng Nghymru.

**Tabl 4: Cyfanswm yr asesiadau o wariant safonol ar gyfer pob cyngor**

| Cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol | £ | £ y pen o'r boblogaeth[1] |
|---|---:|---:|
| Ynys Môn | 189,880 | 2,740 |
| Gwynedd | 334,834 | 2,810 |
| Conwy | 307,805 | 2,690 |
| Sir Ddinbych | 286,907 | 2,953 |
| Sir y Fflint | 389,514 | 2,500 |
| Wrecsam | 345,249 | 2,536 |
| Powys | 360,718 | 2,683 |
| Ceredigion | 200,316 | 2,742 |
| Sir Benfro | 332,219 | 2,658 |
| Sir Gaerfyrddin | 508,868 | 2,677 |
| Abertawe | 633,176 | 2,566 |
| Castell-nedd Port Talbot | 392,310 | 2,745 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 374,217 | 2,550 |
| Bro Morgannwg | 335,566 | 2,491 |
| Rhondda Cynon Taf | 660,983 | 2,741 |
| Merthyr Tudful | 166,386 | 2,840 |
| Caerffili | 483,007 | 2,738 |
| Blaenau Gwent | 192,487 | 2,858 |
| Torfaen | 253,119 | 2,709 |
| Sir Fynwy | 217,770 | 2,303 |
| Casnewydd | 438,607 | 2,681 |
| Caerdydd | 938,954 | 2,448 |
| **Cymru** | **8,342,891** | **2,636** |

*Nodiadau: Gan fod y ffigurau wedi'u talgrynnu, mae'n bosibl na fydd SSA yr holl gynghorau yn creu'r cyfanswm ar gyfer Cymru.*

[1] Fel y'i diffinnir yn nodyn 1, Tabl 1.

**Atodiad 4: Geirfa a Nodiadau Esboniadol**

Mae'r eirfa hon yn cynnig esboniadau o rai o'r termau technegol allweddol a ddefnyddir yn yr adroddiad.

**Amodau sy'n effeithio ar gyfrifiad y dreth gyngor** Dosberthir yr RSG fel bo modd i bob cyngor bennu yr un dreth Gyngor yn fras ar gyfer anheddau sydd wedi'u cynnwys yn yr un band prisio. Ar gyfer pob Cyngor, tybir bod sylfaen y dreth gyngor a ddefnyddir i ddosbarthu'r RSG wedi'i chyfrifo'n unol â'r is-ddeddfwriaeth berthnasol (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 OS 1995/2561 (fel y'i diwygiwyd)[1]. Yn ail, tybir y bydd cymhwyso adran 35 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("eitemau arbennig i ddibenion adran 34") (fel y'i diwygiwyd) yn golygu bod yr anheddau sydd wedi'u rhestru o fewn yr un band prisio ar draws ardal Gyngor gyfan yn talu yr un dreth gyngor.

**Ardrethi Annomestig** yw'r dreth ar eiddo a delir gan berchnogion a meddianwyr eiddo annomestig. Telir yr holl ardrethi annomestig i gronfa gyfun a weinyddir gan Lywodraeth Cymru i'w hailddosbarthu i Gynghorau a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**Awdurdodau Bilio** yw awdurdodau lleol a chanddynt y grym i osod taliadau lleol a chyflwyno biliau am y dreth gyngor ac am ardrethi annomestig, ar eu rhan eu hunain ac ar ran awdurdodau eraill yn yr ardal. Yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yw'r awdurdodau bilio.

**Awdurdodau Derbyn** yw Cynghorau. Telir yr RSG i bob awdurdod derbyn.

**Ardrethi a ddargedwir** yw cyfran unrhyw refeniw NDR net sy'n cael ei greu o ganlyniad uniongyrchol i weithredoedd y Fargen Ddinesig a'r Fargen Twf, ac felly maent wedi'u heithrio o'r pwll NDR ac yn cael eu rhannu ymhlith Cynghorau perthnasol. Ar gyfer 2025-2056 mae hyn yn ymwneud â Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Cyrff penodedig** yw cyrff sydd yn darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ac a nodir yn y Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/718) (W.25) (fel y'u diwygiwyd)[2].

**Y Dreth Gyngor ar gyfer Gwariant Safonol** yw lefel y dreth gyngor ar gyfer eiddo Band D a fyddai'n cael ei chodi ym mhob rhan o Gymru pe bai'r holl Gynghorau a'r heddluoedd yn gwario'n unol â lefel eu SSA. Defnyddir y ffigur hwn i gyfrifo sut y dylai swm yr RSG sydd

[1] O.S. 1995/2561 a gweler Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999 (O.S. 1999/2935) (W.27), a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004 (O.S. 2004/3094) (W.268), Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 2016 O.S. 2016/969 (W.238) (diwygiadau mewn grym o 28 Hydref 2016).

[2] Gweler y Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003 O.S. (2003/706) (W.85) a Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/764) (W.73).

yn daladwy i Gynghorau gael ei rannu rhyngddynt, a hefyd, sut y dylid rhannu swm yr RSG sydd yn daladwy i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**Eiddo cyfwerth â Band D:** I ddibenion y dreth gyngor, mae pob eiddo wedi'i brisio yn ôl band. Mae'r bandiau hyn yn amrywio rhwng Band A a Band I, ac mae'r biliau cyngor ar gyfer pob band yn amrywio yn ôl cyfres o luosyddion. Mae'r lluosyddion hyn yn amrywio rhwng chwe rhan o naw am eiddo band A a dwy a thair rhan o naw ar gyfer eiddo band I, a'r lluosydd ar gyfer eiddo Band D yw un. Nifer yr adeiladau cyfwerth â Band D mewn awdurdod yw cyfanswm yr anheddau domestig yn nhermau eu perthynas â Band D. Er enghraifft, mae un eiddo Band H yn gyfwerth â dau eiddo Band D, gan ei fod yn talu dwbl y dreth gyngor.

**Elfen dreth safonol** yw cyfran y dreth gyngor ar gyfer gwariant safonol y gellir ei phriodoli i bob dosbarth o blith yr awdurdodau derbyn. Dyma ffigur sy’n cyffredin ar gyfer pob awdurdod sy’n derbyn o fewn dosbarth. Rhennir yr awdurdodau sy’n derbyn hyn yng Nghymru i ddau ddosbarth, sef cynghorau a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**Is-Grŵp Dosbarthu (DSG)** Un o weithgorau Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid y Cyngor Partneriaeth. Mae copïau o'i adroddiadau, ei gyfrifoldebau a manylion ei aelodaeth ar gael o'r Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru.

**SSAs** (Asesiadau o Wariant Safonol) yw asesiadau tybiannol o angen pob Cyngor i wario ar wasanaethau refeniw, ac eithrio grantiau penodol, i ddibenion dosbarthu'r RSG.

**Sylfaen y Dreth Gyngor** ardal yw nifer yr adeiladau cyfwerth â Band D, ar ôl addasu ar gyfer gostyngiadau ac eithriadau. Mae gostyngiadau ar gael i bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, ac i berchnogion cartrefi nad ydynt yn cael eu defnyddio gan unrhyw un fel prif gartref. Ni chodir y Dreth Gyngor ar gyfer rhai mathau o adeiladau, a elwir yn adeiladau wedi'u heithrio, fel adeiladau nad oes ond myfyrwyr yn byw ynddynt. Ceir disgrifiad o'r dull o gyfrifo sylfaen y dreth gyngor, a'r dull o'i ddefnyddio er mwyn cyfrifo'r RSG ym mharagraff 3.5 yn adran 2 o'r Adroddiad hwn.

**Atodiad 5: Sail Statudol ar gyfer yr Adroddiad**

1. Lluniwyd yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol o dan adran 84G (Adroddiadau cyllid llywodraeth leol) o Deddf 1988, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2003. Cafodd Adrannau 84D a 84P ei chynnwys yn Neddf 1988 yn sgil adran 40 a pharagraff 1 o Atodlen 2 yn Neddf 2003. Bydd yr adroddiad yn cael effaith ar flwyddyn ariannol 2023-24, os yw Senedd yn penderfynu ei gymeradwyo.

***Swm yr RSG a'r ardrethi annomestig a ailddosberthir***

2. Yn Adran 84F (Pennu Grant) o Ddeddf 1998, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru bennu swm yr RSG ar gyfer pob blwyddyn ariannol; faint maent yn cynnig ei dalu i'r awdurdodau derbyn (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol), a faint maent yn cynnig ei dalu i gyrff penodedig.

3. <u>Cyrff penodedig</u> yw cyrff sy'n darparu gwasanaethau i awdurdodau lleol ac a bennir yn Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003/706) (W.85) a Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/764) (W.73).

***Sail ar gyfer dosbarthu'r RSG***

4. Yn sgil Adran 84G, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad yn nodi eu penderfyniadau o dan adran 84F, a nodi ar ba sail y bydd yr RSG yn cael ei ddosbarthu ymhlith yr awdurdodau derbyn a'r cyrff penodedig.

***Ardrethi annomestig a ailddosberthir***

5. Cafodd baragraffau 9A, 11A, 11B, 11C a 14A eu chynnwys yn Atodlen 8 Deddf 1988 gan adran 40 ac Atodlen 2 i Ddeddf 2003. Ym Mharagraff 9A (Blynyddoedd lle llunnir dau adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer Cymru), mae'n ofynnol i Weinidogion nodi yn yr adroddiad cyntaf y swm sydd i'w ddosbarthu o'r cyfrif ardrethi annomestig. O dan baragraff 11A (Dosbarthu: adroddiadau cyllid llywodraeth leol) o'r un Atodlen, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru nodi yn yr adroddiad y sail (y sail ddosbarthu) a ddefnyddir er mwyn dosbarthu'r swm sydd i'w ddosbarthu ymhlith yr awdurdodau derbyn.